



POLISI DIOGELU PLANT

Ym mhob un o'r polisiau fe anelwn at gyflawni nodau ac amcanion fframwaith saith nod Craidd Hawliau Gweithredu Pobl Ifanc Cymru.

“DYRO DY LAW I MI AC FE AWN I BEN Y MYNYDD”

Drwy gydweithio ac ymddiried yn ein gilydd mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg am sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd i ben mynydd ei allu a'i dalentau. Gwnawn hynny drwy gynnig cyfle, cynhaliaeth ac arweiniad o fewn cymdeithas bositif, eangfrydig, diogel a gwar.

Gweledigaeth ar gyfer ein disgyblion

Rydym am ddisgyblion rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd yn falch o draddodiad ac etifeddiaeth eu hardal a'u gwlad. Ceisiwn ddinasyddion cytbwys a chyfrifol sy'n parchu hawliau unigolion eraill ac sydd yn gyfforddus a'u hunain. Bydd ganddynt barch at eu meddyliau, eu hysbryd, a'u cyrff ac fe fydd ganddynt orwelion eang a chwilfrydedd am wybodaeth newydd. Meddant ar y medrau angenrheidiol i fanteisio ar her a sialens y dyfodol yn y byd gwaith ac yn y gymdeithas a byddent am barhau i dyfu a datblygu fel dysgwyr gydol oes a dinasyddion y byd.

Nodyn Canllaw

Rhaid i ysgolion a lleoliadau eraill o fewn y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau feddu ar bolisi diogelu/amddiffyn plant effeithiol sydd:

- yn dilyn canllawiau Awdurdodau Lleol ar weithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol
- yn cynnwys gwasanaethau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod ysgol
- yn cael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn
- ar gael i rieni neu ofalwyr ar gais
- yn cael ei ddarparu mewn fformat sy'n briodol i ddealltwriaeth plant, ac yn arbennig ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol

Mae'r Polisi Diogelu enghreifftiol hwn ar gael gan Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau Bro Morgannwg i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisiau diogelu ym mhob rhan o'r Gyfarwyddiaeth.

Mae'r polisi enghreifftiol yn seiliedig ar y polisi amddiffyn plant enghreifftiol a ddarperir yn nogfen ganllaw Llywodraeth Cymru rhif: 265/2020 o *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*.

Sylwer bod y term ysgol yn cael ei ddefnyddio drwy'r polisi diogelu enghreifftiol hwn. Er hynny, bwriedir i'r ddogfen gael ei defnyddio gan bob lleoliad o fewn y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau

ac felly bydd angen ei diwygio'n unol â hynny i'w defnyddio gan lyfrgelloedd a Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

Yn yr un modd, mae'r polisi enghreifftiol yn cyfeirio'n helaeth at ddiogelu/*amddiffyn plant*, *plant a disgyblion* a bydd angen eu diwygio i'w defnyddio mewn lleoliadau oedolion.

Gall sefydliadau unigol addasu'r polisi enghreifftiol drwy ychwanegu logo sefydliadol a chynnwys ychwanegol sy'n berthnasol i'r lleoliad.

Mae'r polisi enghreifftiol yn bodoli o fewn y fframweithiau deddfwriaethol a llywodraethiant ar gyfer diogelu yng Nghymru, gan gynnwys:

- Adran 175 Deddf Addysg 2002
- Dyletswydd gofal cyfraith gyffredin
- Deddf Plant 1989
- Deddf Plant 2004
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Diogelu Plant: Cydweithio dan Ddeddf Plant 2004
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- Y Fframwaith Hawliau Plant
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Bwrdd Diogelu Rhanbarthol
- Adolygiadau Ymarfer Plant: fforymau proffesiynol amlasiantaethol (di-liw)
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
- Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003
- Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

DS. Rhaid i bolisi diogelu adlewyrchu deddfwriaeth a chanllawiau newydd sy'n dod i'r amlwg

Swyddog Diogelu Plant:

Nia Rowlands

Dirprwy Swyddogion Diogelu Plant:

Ffion Williams
Laura Downey
Rhys Angell Jones
Catrin Bennett
David Morgan
Catrin Walters
Richard Chidley
Marc Bowen
Lisa Weighell
Marged Jones

CYFLWYNIAD

Mae Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg cydnabod yn llawn y cyfraniad y mae'n ei wneud i ddiogelu ac amddiffyn plant a bod gan blant yr hawl i gael eu diogelu a'u hamddiffyn rhag niwed.

Caiff ein polisi ei lywio gan ymagwedd hawliau plant at ddiogelu fel fframwaith egwyddorol ac ymarferol ar gyfer gweithio gyda phlant, wedi'i wreiddio yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae tair prif elfen i'n polisi:

- Atal drwy'r diwylliant, yr addysgu a'r cymorth bugeiliol a gynigir i ddysgwyr;
- Gweithdrefnau ar gyfer nodi ac adrodd am achosion, neu achosion tybiedig, o gamdriniaeth – oherwydd ein cyswllt o ddydd i ddydd â phlant mae ein staff mewn sefyllfa dda i arsylwi ar arwyddion allanol camdriniaeth; a
- Cymorth i ddysgwyr a allai fod wedi cael eu cam-drin

Mae ein polisi'n berthnasol i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol a'r llywodraethwyr. Gall cynorthwywyr cymorth dysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalwyr, ysgrifenyddion ac ymwelwyr proffesiynol e.e. Gyrfa Cymru, yn ogystal ag athrawon fod yn bwynt datgelu cyntaf i blentyn.

Dylid darllen ein polisi ar y cyd â dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru rhif: 265/2020 *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel-rol-awdurdodau-lleol-cyrff-llywodraethu-a-pherchnogion-ysgolion-annibynnol-o-dan-ddeddf-addysg.pdf>

1. ATAL

Rydym yn cydnabod bod hunan-barch uchel, hyder, ffrindiau cefnogol a chyfathrebu da gydag oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn helpu i amddiffyn plant.

Felly bydd ein hysgol yn:

- sefydlu a chynnal ethos lle mae plant a staff yn teimlo'n ddiogel a ble maent yn cael eu hannog i siarad ac yn cael clust i wrando arnynt;
- sicrhau bod plant yn gwybod bod oedolion yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg y gallent fynd atyn nhw os ydynt yn poeni neu os ydynt mewn trafferthion;
- cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd ar gyfer Addysg Cydberthnasoedd a Rhywioldeb yn y cwricwlwm, sy'n rhoi'r sgiliau y mae eu hangen ar blant i gadw'n ddiogel rhag camdriniaeth a gwybod at bwy y gallent droi am help;
- cynnwys deunydd yn y cwricwlwm a fydd yn helpu plant i ddatblygu agweddau realistig at gyfrifoldebau bywyd fel oedolyn, yn enwedig o ran gofal plant a sgiliau rhianta;
- meithrin perthynas ag asiantaethau eraill a sicrhau bod atgyfeiriadau cynnar a phriodol ar gyfer cymorth ac ymyrraeth yn cael eu gwneud cyn i'r risgiau waethygu; a
- mabwysiadu dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant a fydd yn ymgorffori mesurau diogelu ac ataliol i gefnogi plant a theuluoedd.

2. GWEITHDREFNAU

Byddwn yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru a gymeradwywyd gan 58 o Fyrddau Diogelu Plant. Bydd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yn:

- sicrhau bod ganddi Berson Diogelu Dynodedig ar gyfer diogelu sydd wedi ymgymryd â'r hyfforddiant priodol;
- cydnabod rôl y Person Diogelu Dynodedig a threfnu cymorth a hyfforddiant statudol a phriodol;
- sicrhau bod pob aelod o staff a phob llywodraethwr yn gwybod:

- enw'r Person Diogelu Dynodedig (Nia Rowlands) a'i rôl ac enw'r llywodraethwr dynodedig (Anne-Louise Llywellyn-Morgan) ar gyfer diogelu;
- sut mae nodi unrhyw gonsyrn am ddiogelu plant ar system My Concern yr ysgol.
- bod gan y Dirprwy Swyddogion gyfrifoldeb unigol dros roi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol, neu i'r heddlu am blant sy'n wynebu risg a phryderon amddiffyn, o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn absenoldeb Nia Rowlands; a
- sut i fwrw'r pryderon hynny yn eu blaen pan nad yw'r Person Diogelu Dynodedig ar gael.
- sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r angen i fod yn wyladwrus am arwyddion o gamdriniaeth ac esgeulustod a gwybod sut i ymateb i ddysgwyr a all ddatgelu camdriniaeth neu esgeulustod.

Pan fydd aelod o staff, addysgu neu arall, yn cael gwybod am arwyddion o gamdriniaeth neu esgeulustod, dylai: drafod y mater gydag Uwch Berson Dynodedig yr ysgol neu yn ei absenoldeb y Dirprwy Swyddogion Diogelu Plant. Os penderfynir bod angen atgyfeirio'r digwyddiad, **rhaid i'r UBD yn achos argyfwng pan fo pryderon amddiffyn plant wneud atgyfeiriad dros y ffôn ar unwaith i'r Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc** drwy ffonio'r Swyddog Dyletswydd ar 01446 725202, neu y tu allan i oriau ar 02920 788570, os na allant gysylltu â'r Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc, yna mae angen i'r atgyfeiriwr ddeialu 999 a rhoi gwybod i'r heddlu am y mater fel argyfwng. Rhaid dilyn hyn o fewn dau ddiwrnod gwaith gyda llenwi'r Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol (MARF) drwy e-bost at: dutymarfs@valeofglamorgan.gov.uk. Gellir atgyfeirio achosion nad oes angen amddiffyn plant ar unwaith drwy gyflwyno MARF. Os rhoddir tic yn y blwch atgyfeirio "Plentyn mewn Angen", rhaid i'r MARF gael caniatâd y rhieni ynghlwm. Nid oes angen caniatâd rhieni ar gyfer y blwch atgyfeirio "Child Protection".

Gellir gofyn am gyngor cyn atgyfeirio drwy drafod pryder gyda desg ddyletswydd GPPI, neu'r Swyddog Diogelu ar gyfer [Dysgu a Sgiliau – Swyddog Diogelu](#) 01446 709867.

Dylid sicrhau bod aelodau staff sy'n gofrestryddion Cyngor y Gweithlu Addysg yng Nghymru yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Cofrestryddion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg a'r disgwyliad o fewn y Cod bod cofrestrydd yn rhoi sylw i ddiogelwch a lles dysgwyr yn eu gofal a chynnwys cysylltiedig.

Dylid sicrhau bod gan rieni ddealltwriaeth o'r cyfrifoldeb sydd gan yr ysgol a staff am ddiogelu ac amddiffyn plant drwy nodi ei rwymedigaethau yn llyfryn yr ysgol.

Bydd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a Chyngor Bro Morgannwg yn darparu hyfforddiant i'r holl staff fel eu bod:

- yn deall eu cyfrifoldeb personol;
- yn gwybod y gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt a'u dyletswydd i ymateb;
- yn ymwybodol o'r angen i fod yn wyladwrus wrth nodi achosion o gam-drin ac esgeuluso;
- gwybod sut i gefnogi plentyn sy'n datgelu camdriniaeth neu esgeulustod; a
- deall y rôl y gallai ymddygiadau ar-lein eu cael ym mhob un o'r uchod

Dylid hysbysu tîm gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol pan fo:

- dysgwyr ar y gofrestr amddiffyn plant yn cael ei wahardd, naill ai am gyfnod penodol neu'n barhaol; neu
- pan fo disgybl sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn absennol o'r ysgol heb esboniad am fwy na dau ddiwrnod (neu un diwrnod ar ôl penwythnos).

Dylid gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau perthnasol a gweithredol fel sy'n ofynnol gyda'u hymholiadau ynghylch materion amddiffyn plant gan gynnwys mynychu cynadleddau a grwpiau craidd adolygu cychwynnol ac amddiffyn plant a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r cynadleddau.

Dylid cadw cofnodion ar My Concern am bryderon am blant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad a'r camau a gymerwyd), hyd yn oed pan nad oes angen cyfeirio'r mater at yr awdurdod lleol ar unwaith.

Dylid sicrhau fod yr holl gofnodion diogelu yn cael eu cadw'n ddiogel ar system My Concern yr ysgol neu o dan glo.

Dylid glynu wrth y gweithdrefnau a nodir yng Ngweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Llywodraeth Cymru ar gyfer Staff Ysgol.

Dylid sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio a dethol yn cael eu gwneud yn unol â chanllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Llywodraeth Cymru; a dynodi llywodraethwr ar gyfer diogelu a fydd yn goruchwyllo polisi ac arfer amddiffyn plant yr ysgol.

Rhaid i bob ymwelydd fewngofnodi pan yn cyrraedd y safle a gwisgo bathodyn ymwelydd.

Mae gan bob aelod o staff bathodyn adnabod ynghyd â cherdyn sy'n nodi trefniadau diogelu plant yr ysgol.

3. CEFNOGI'R RHAI SY'N WYNEBU RISG

- Rydym yn cydnabod y gallai plant/pobl ifanc sy'n wynebu risg, yn dioddef camdriniaeth neu'n profi trais ddioddef yn ddifrifol oherwydd hynny.
- Efallai mai ein hysgol ni fyddai'r unig elfen sefydlog, ddiogel a rhagweladwy ym mywydau plant sy'n wynebu risg. Serch hynny, pan fyddant yn yr ysgol, gall eu hymddygiad fod yn heriol ac yn anufudd neu'n dawedog.
- Bydd ein hysgol yn ymdrechu i gefnogi'r dysgwr drwy:
 - gynnwys y cwricwlwm i annog hunan-barch a hunan-gymhelliant;
 - ethos ein hysgol;
 - hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel; ac
 - ymdeimlad i ddysgwyr o gael eu gwerthfawrogi (gweler adran 2 ar Atal)
- Nod ein polisi Perthnasoedd yw cefnogi pob disgybl sy'n agored i niwed yn yr ysgol. Bydd yr ysgol yn ymdrechu i sicrhau bod y dysgwr yn gwybod bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol ond ei fod/ei bod yn cael ei werthfawrogi/gwerthfawrogi ac nid arnyn nhw y mae'r bai am unrhyw gam-drin sydd wedi digwydd.

Byddwn yn cysylltu ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r dysgwr, gan ategu'r canlynol:

- Gwasanaeth Seicoleg Addysg, Gwasanaethau Ymgysylltu neu'r Gwasanaeth Lles Addysg
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a gwasanaethau eirioli;
- Byddwn yn cadw cofnodion a hysbysu'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bydd pryder yn codi eto.
- Pan fydd dysgwr ar y gofrestr amddiffyn plant yn gadael, byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth i'r darparwr newydd ar unwaith ac yn hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Mae gan yr ysgol gyfeiriad e-bost diogel addas er mwyn i hysbysiadau gael eu derbyn fel rhan o Ymgyrch Cwmpasu, ac i gefnogi'r plentyn sy'n destun yr hysbysiad hwnnw

4. GWRTH-FWLIO

Mae gennym bolisi gwrth-fwlio ac fe'i hadolygir yn flynyddol gan y corff llywodraethu. Mae'n gyson â *Pholisi a Chanllawiau wedi'u Diweddarau ar Gwrth-fwlio mewn Ysgolion/Lleoliadau Addysgol* (2014) Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau Bro Morgannwg a Dogfen Ganllawiau Llywodraeth Cymru Rhif: 050/2011 *Parchu eraill: Trosolwg gwrth-fwlio.* <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/parchu-eraill-trosolwg-gwrth-fwlio.pdf>

5. YMYRRAETH GORFFOROL

Gweler yr atodiad ymyrraeth corfforol. Fe'i hadolygir yn flynyddol gan y corff llywodraethu ac mae'n gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar ymyrraeth ddiogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/ymyriad-diogel-ac-effeithiol-defnyddio-grym-rhesymol-a-chwilio-am-arfau.pdf>

6. PLANT GYDAG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Rydym yn cydnabod mai plant ag anawsterau ac anableddau dysgu sydd fwyaf agored i gael eu cam-drin yn ystadegol. Mae angen i staff yr ysgol sy'n ymwneud â phlant ag anableddau dwys a lluosog, nam ar y synhwyrâu a/neu anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl fod yn arbennig o sensitif i arwyddion o gamdriniaeth.

7. DYLETYSWYDD PREVENT

Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant Prevent yn flynyddol. Mae'n gyson â'r *Canllawiau Diwygiedig ar Ddyletswydd Prevent: ar gyfer Cymru a Lloegr* (2015) a dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru Rhif: 045/2011 *Parch a gwydnwch* <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/gwrthsafiad-a-pharch-datblygu-cydluniant-cymunedol.pdf> ac wedi'i lywio gan *Offeryn hunanasesu parch a gwydnwch 2016* <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/pecyn-hunanasesu-gwrthsafiad-a-pharch.pdf>

8. DYSGU AR-LEIN

Fel ysgol rydym yn dilyn y canllawiau a'r cyngor a roddir yn y *Cadw'n Ddiogel Ar-lein: Ffrydio byw a fideo-gynadledda, egwyddorion ac arfer diogelu Diwygiedig* <https://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/ffrydio-byw-a-fideogynadledda-arferion-ac-egwyddorion-diogelu> i sicrhau bod ein cymuned ysgol gyfan yn cael ei chadw'n ddiogel wrth ddysgu ar-lein. Mae hefyd gennym bolisi dysgu ar lein (2021).

9. RECRIWTIO A DETHOL

Mae ein hysgol wedi ymrwmo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac mae'n disgwyl i bob cyflogai, gweithiwr asiantaeth, contractwr a gwirfoddolwr rannu'r ymrwymiad hwn. Recriwtio Mwy Diogel yw'r cam cyntaf tuag at ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn ein hysgol drwy weithredu polisi a gweithdrefnau sy'n helpu i rwystro, gwrthod, atal neu ganfod pobl a allai gam-drin plant neu sydd fel arall yn anaddas i weithio mewn amgylchedd ysgol.

Ceir polisi ar recriwtio mwy diogel a fe'i adolygir yn flynyddol gan y corff llywodraethu. Mae'n gyson â *Pholisi Recriwtio Mwy Diogel* (2013) <https://staffnet.valeofglamorgan.gov.uk/Schools/Safer-Recruitment/Safer-Recruitment.aspx> a *Canllawiau Recriwtio Mwy Diogel* Cyngor Bro Morgannwg a dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru rhif: 158/2015 *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*

10. CYFRIFOLDEBAU DIOGELU MEWN AMGYLCHIADAU PENODOL ERAILL

Mae ein hysgol yn ymwybodol o'r ddyletswydd a'r cyfrifoldeb i ddiogelu disgyblion mewn amgylchiadau penodol ac mae wedi mabwysiadu canllawiau statudol ac arfer da, sy'n gyson â dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru rhif: 265/2020 *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel-rol-awdurdodau-lleol-cyrrff-llywodraethu-a-pherchnogion-ysgolion-annibynnol-o-dan-ddeddf-addysg.pdf>

11. HUNANARFARNU AC ARCHWILIO

Mae ein hysgol yn cynnal adroddiad hunanwerthuso diogelu cyfredol sy'n cael ei adolygu'n flynyddol gan y corff llywodraethu ac sy'n gyson â ffurflen Hunanwerthuso Estyn ar gyfer Diogelu ac Amddiffyn Plant

<https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Draft%2520SER%2520For%2520Schools%2520RE%2520SFG%2520%25202017%2520-%2520new%2520cy.docx>

neu *Offeryn a Chanllawiau Archwilio* hunanwerthusiad diogelu Llywodraeth Cymru sy'n cyd-fynd â *Cadw dysgwyr yn ddiogel (Atodiad 3)* <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-11/atodiad-3-adnodd-archwilio-trefniadau-diogelu.docx> fel offeryn ar gyfer gwelliant parhaus mewn arferion diogelu.

12. HONIADAU YN ERBYN CYFLOGEION A GWIRFODDOLWYR

Bydd unrhyw honiad o gam-drin a wneir gan neu ar ran plentyn yn cael ei gymryd o ddifrif a bydd rhywun yn gwrando ar y plentyn ac yn ymdrin ag ef yn sensitif.

Mae gan ein hysgol ddyletswydd gofal hefyd i'n gweithwyr a'n gwirfoddolwyr a byddwn yn cefnogi unigolion sy'n destun honiad i reoli a lleihau'r straen sy'n rhan annatod o'r broses honiadau.

Mae gan ein hysgol weithdrefnau sy'n glynu wrth y gweithdrefnau a nodir yng nghylchlythyr Llywodraeth Cymru rhif: 009/2014 *Diogelu Plant mewn Addysg: trin honiadau o gamdriniaeth yn erbyn athrawon a staff eraill* <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/diogelu-plant-mewn-addysg-ymdrin-a-honiadau-o-gam-drin-yn-erbyn-athrawon-a-staff-eraill.pdf> a *Gweithdrefnau Diogelu Cymru: Adran 5, honiadau/pryderon am ymarferwyr a'r rheiny sydd mewn swyddi ymddiriedaeth* <https://diogelu.cymru/adu/index.a5.html>

13. HYFFORDDIANT DIOGELU

Mae ein hysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl staff (parhaol a dros dro) a gwirfoddolwyr yn ymgymryd â'r hyfforddiant priodol i roi iddynt yr wybodaeth a'r sgiliau sy'n angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau o ran diogelu plant yn effeithiol, sy'n cael ei ddiweddarau gan hyfforddiant gloywi blynyddol, a elwir yn hyfforddiant Lefel 1.

Mae ein hysgol yn sicrhau bod yr Uwch Berson Dynodedig (**Nia Rowlands**), y Dirprwyon Dynodedig (**Rhys Angell Jones, Ffion Williams, Laura Downey, Catrin Bennett, David Morgan, Catrin Walters, Richard Chidley, Marc Bowen, Lisa Weighell, Marged Jones**) ar gyfer diogelu, y Llywodraethwr Diogelu Dynodedig (**Anne-Louise Llywellyn-Morgan**) a Chadeirydd y Llywodraethwyr (**Rob Evans**) yn ymgymryd â hyfforddiant mewn gwaith rhyngasiantaethol a ddarperir gan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a hyfforddiant gloywi, neu i'r safonau y cytunwyd arnynt, i ddiweddarau eu gwybodaeth a'u sgiliau, yn ogystal â hyfforddiant diogelu sylfaenol.

Mae pob Llywodraethwr hefyd yn cael hyfforddiant priodol ar ei gyfrifoldebau diogelu ac wrth ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn staff ysgol. Trefnir hyn gan Clerc y Llywodraethwyr – **Charlotte Dechamps**.

Cedwir cofnodion gan y Person Diogelu Dynodedig o ddyddiadau'r hyfforddiant, manylion y darparwr a chofnod o bresenoldeb y staff yn yr hyfforddiant.

Mae'n ofynnol i'r Uwch Berson Dynodedig, y Dirprwyon Berson Dynodedig a'r Llywodraethwyr perthnasol ymgymryd â hyfforddiant gloywi blynyddol, a elwir yn lefel 2. Yn ogystal â hyfforddiant amlasiantaethol llawn yn unol â gofynion *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*, bob 3 blynedd, yn ymwneud â'u dyletswyddau diogelu.

ATODIAD 1 (addaswyd o ddogfen Cyngor Sir Bro Morgannwg):

YMYRRAETH GORFFOROL MEWN YSGOLION

1. CEFNDIR

Rydym yn diffinio ymyrraeth gorfforol fel a ganlyn:

Ymyrraeth gorfforol yw pan fydd aelod o staff yn defnyddio grym yn fwriadol i gyfyngu ar symudiad plentyn yn erbyn ei ewyllys. Nod yr holl staff yn y lleoliad hwn yw helpu plant i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad eu hunain. Rydym yn gwneud hyn trwy gyfuniad o ddulliau, sy'n cynnwys:

- modelu rôl cadarnhaol
- dysgu cwricwlwm diddorol a heriol trwy weithgareddau gwahaniaethol
- gosod ffiniau a disgwyliadau priodol
- darparu adborth cefnogol.
- darparu strategaethau ymdopi priodol ar gyfer rheoli ymddygiad.

Mae mwy o fanylion am hyn a'n dull cyffredinol o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol i'w gweld yn ein polisi. Mae adegau pan fydd ymddygiad plant yn cyflwyno heriau penodol a gall fod angen ymyrraeth gorfforol. Mae'r atodiad hwn yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer defnyddio ymyrraeth o'r fath. Ni fwriedir iddo gyfeirio at y defnydd cyffredinol o gyswllt corfforol a allai fod yn briodol mewn ystod o sefyllfaoedd, megis:

- rhoi arweiniad corfforol i blant (er enghraifft mewn gweithgareddau ymarferol) gan ddarparu cefnogaeth emosiynol pan fo angen
- darparu gofal corfforol (fel cymorth cyntaf neu doiled).

Mae'r atodiad hwn yn gyson â'n polisiâu Diogelu ac Amddiffyn Plant a Chyfle Cyfartal, a chyda chanllawiau cenedlaethol a lleol i ysgolion ar ddiogelu plant. Rydym yn ymarfer gofal priodol wrth ddefnyddio cyswllt corfforol; mae rhai plant y byddai cyswllt corfforol yn amhriodol ar eu cyfer (fel y rhai sydd â hanes o gam-drin corfforol neu rywiol, neu'r rhai o grwpiau diwylliannol/crefyddol penodol).

2. EGWYDDOR AR GYFER DEFNYDDIO YMYRRAETH GORFFOROL

2.1 YNG NGHVD-DESTUN DULLIAU CADARNHAOL

Dim ond pan fydd y risg sy'n gysylltiedig â defnyddio grym yn gorbwyso'r risg sy'n gysylltiedig â peidio defnyddio grym. Nid dyma ein hoff ffordd o reoli ymddygiad plant. Dim ond yng nghyd-destun fframwaith rheoli ymddygiad cadarnhaol sydd wedi'i hen sefydlu yn yr ysgol, a'i weithredu'n dda y gellir defnyddio ymyrraeth gorfforol ac eithrio sefyllfaoedd brys. Rydym yn disgrifio ein dull o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn ein Polisi Perthnasoedd. Ein nod yw gwneud popeth o fewn ein gallu er mwyn osgoi defnyddio ymyrraeth gorfforol. Dim ond pan fyddwn yn barnu nad oes dewis arall llai ymarferol y byddem yn ei ddefnyddio. Fodd bynnag, gall fod sefyllfaoedd prin lle rydym yn barnu y byddai angen i ni ddefnyddio ymyrraeth gorfforol ar unwaith. Byddem yn defnyddio ymyrraeth gorfforol ar yr un pryd â defnyddio dulliau eraill, megis dweud, "Stop!" a rhoi rhybudd o'r hyn a allai ddigwydd nesaf. Mae diogelwch bob amser yn flaenoriaeth ac ni chynghorir staff i ddefnyddio ymyrraeth gorfforol os yw'n debygol o roi eu hunain mewn perygl.

2.2 DYLETSWYDD GOFAL

Mae gan bob un ohonom ddyletswydd gofal tuag at y plant a'r bobl ifanc yn ein hysgol. Mae'r dyletswydd gofal hwn yn berthnasol cymaint i'r hyn nad ydym yn ei wneud â'r hyn a wnawn. Pan fydd plant neu bobl ifanc mewn perygl o brifo eu hunain neu eraill, neu o achosi difrod sylweddol i eiddo, mae gennym gyfrifoldeb i ymyrryd. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn cynnwys ymgais i ddargyfeirio'r plentyn i weithgaredd arall neu i ddilyn cyfarwyddyd syml i "Stopio!" ynghyd â rhybudd o'r hyn a allai ddigwydd nesaf. Fodd bynnag, os ydym yn barnu ei fod yn angenrheidiol, gallwn ddefnyddio ymyrraeth gorfforol.

2.3 GRYM RHESYMOL

Pan fydd angen i ni ddefnyddio ymyrraeth gorfforol, rydym yn ei ddefnyddio o fewn yr egwyddor o rym rhesymol. Mae hyn yn golygu defnyddio swm o rym sy'n addas â'r amgylchiadau. Rydym yn defnyddio cyn lleied o rym ag sy'n bosib er mwyn cynnal diogelwch, ac rydym yn defnyddio hwn am gyfnod mor fyr â phosibl.

3. PRYD Y GELLIR DEFNYDDIO YMYRRAETH GORFFOROL?

Dim ond ar ôl i strategaethau darbwylo gael eu defnyddio neu fel ymateb brys i sefyllfa benodol. Gellir cyfiawnhau defnyddio ymyrraeth gorfforol lle mae disgybl yn:

1. cyflawni trosedd (neu, i ddisgybl o dan oedran cyfrifoldeb troseddol, beth fyddai'n drosedd i ddisgybl hŷn)
2. achosi anaf personol i, neu ddifrod i eiddo unrhyw berson (gan gynnwys y disgybl ei hun); neu
3. amharu yn addas ar drefn a disgyblaeth dda yr ysgol neu ymhlith unrhyw ddisgyblion sy'n derbyn addysg yn yr ysgol, p'un ai yn ystod sesiwn addysgu neu fel arall.
4. lle mae diogelwch personol disgyblion yn cael ei gyfaddawdu.

Efallai y bydd ymyrraeth gorfforol hefyd yn briodol lle, er nad oes yr un o'r uchod wedi digwydd eto, bernir eu bod yn debygol iawn o fod ar fin digwydd. Rydym yn ofalus iawn ynglŷn â defnyddio ymyrraeth gorfforol lle nad oes pryderon uniongyrchol ynghylch anaf posibl neu ddifrod eithriadol i eiddo. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai ymyrraeth gorfforol yn cael ei defnyddio. Os yn bosibl, dylai gael ei wneud gan staff sy'n adnabod y myfyriwr yn dda ac sy'n gallu llunio barn wybodus am y risgiau cymharol o ddefnyddio, neu beidio â defnyddio, ymyrraeth gorfforol; er enghraifft atal plentyn iau rhag gadael safle'r ysgol.

Prif nod ymyrraeth gorfforol fel arfer yw cynnal neu adfer diogelwch. Rydym yn cydnabod y gall fod adegau pan fydd modd cyfiawnhau ymyrraeth gorfforol fel ymateb rhesymol i atal difrod i eiddo neu i gynnal trefn a disgyblaeth dda yn yr ysgol. Fodd bynnag, byddem yn arbennig o ofalus i ystyried yr holl opsiynau eraill sydd ar gael cyn defnyddio ymyrraeth gorfforol i gyflawni'r naill neu'r llall o'r nodau hyn.

Ymhob achos, cofiwn, hyd yn oed os mai'r nod yw ailsefydlu trefn dda, y gall ymyrraeth gorfforol waethygu'r sefyllfa mewn gwirionedd. Os ydym yn barnu y byddai ymyrraeth gorfforol yn gwaethygu'r sefyllfa, ni fyddem yn ei defnyddio, ond byddem yn gwneud rhywbeth arall (fel mynd i geisio cymorth, gwneud yr ardal yn ddiogel neu rybuddio am yr hyn a allai ddigwydd nesaf a chyhoeddi cyfarwyddyd i stopio).

Mae ein dyletswydd gofal yn golygu y gallem ddefnyddio ymyrraeth gorfforol os yw plentyn yn ceisio gadael ein safle ac roeddem o'r farn y byddent mewn risg annerbyniol. Mae'r dyletswydd gofal hefyd yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau ein safleoedd: gall fod sefyllfaoedd hefyd lle mae angen i ni ddefnyddio ymyrraeth gorfforol pan fydd gennym reolaeth neu ofal Disgybl oddi ar y safle (e.e. ar deithiau).

Nid ydym byth yn defnyddio ymyrraeth gorfforol allan o ddiecter na fel cosb.

4. PWY ALL DDEFNYDDIO YMYRRAETH GORFFOROL?

Os yw'r defnydd o ymyrraeth gorfforol yn briodol, ac yn rhan o fframwaith rheoli ymddygiad cadarnhaol, dylai aelod o staff, os yn bosib, sy'n adnabod y plentyn yn dda gymryd rhan, a lle bo hynny'n bosibl, mae achredwr Team Teach wedi'i hyfforddi i ddefnyddio ymyrraeth gorfforol. Fodd bynnag, mewn argyfwng, efallai y bydd unrhyw un o'r canlynol yn gallu defnyddio grym rhesymol:

4.1 unrhyw athro sy'n gweithio yn yr ysgol,

4.2 unrhyw berson arall y mae'r Pennaeth/Rheolwr Cyswllt, athro wedi'i awdurdodi i fod â rheolaeth neu ofal disgyblion, gan gynnwys:
staff cymorth y mae eu swydd fel arfer yn cynnwys goruchwylio disgyblion fel cynorthwywyr addysgu, cynorthwywyr cymorth dysgu, mentoriaid dysgu a goruchwylwyr amser cinio;

5. CYNLLUNIO O AMGYLCH UNIGOLYN AC ASESIAD RISG

Mewn argyfwng, mae staff yn gwneud eu gorau, gan ddefnyddio grym rhesymol pan nad oes dewis arall ar gael. Lle mae gan blentyn gynllun rheoli ymddygiad cadarnhaol unigol, sy'n cynnwys defnyddio ymyrraeth gorfforol, rydym yn sicrhau bod staff o'r fath yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth briodol mewn rheoli ymddygiad yn ogystal ag ymyrraeth gorfforol. Rydym yn ystyried iechyd corfforol ac emosiynol staff a phlant pan fyddwn yn gwneud y cynlluniau hyn ac yn ymgynghori â rhieni/gwarcheidwaid y plentyn. Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, mae ein defnydd o ymyrraeth gorfforol yng nghyd-destun asesiad risg blaenorol sy'n ystyried:

- Beth yw'r risgiau
- Pwy sydd mewn perygl a sut
- Beth allwn ei wneud i reoli'r risg (gall hyn gynnwys y defnydd posibl o ymyrraeth gorfforol)

Rydyn ni'n defnyddio'r asesiad risg hwn i lywio'r cynllun ymddygiad unigol rydyn ni'n ei ddatblygu i gefnogi'r plentyn. Os yw'r cynllun ymddygiad hwn yn cynnwys ymyrraeth gorfforol, bydd fel un rhan yn unig o ddull cyfan o gefnogi ymddygiad y plentyn. Mae'r cynllun ymddygiad yn amlinellu:

- Sut rydym yn addasu ein hamgylchedd i ddiwallu anghenion y plentyn yn well
- Sut rydyn ni'n addysgu ac yn annog y plentyn i ddefnyddio ymddygiadau newydd, mwy priodol
- Sut rydyn ni'n gwobrwyo'r plentyn pan fydd ef neu hi'n gwneud cynnydd
- Sut rydyn ni'n ymateb pan fydd ymddygiad y plentyn yn heriol
- Rydym yn talu sylw arbennig i strategaethau ymatebol. Rydym yn defnyddio ystod o ddulliau (gan gynnwys hiwmor, tynnu sylw, adleoli, a chynnig dewisiadau) fel dewisiadau amgen uniongyrchol i ddefnyddio ymyrraeth gorfforol.
- Rydym yn dewis y strategaethau ymatebol hyn yng ngoleuni ein hasesiad risg.
- Rydym yn tynnu o gynifer o wahanol safbwyntiau â phosibl pan ragwelwn y gallai ymddygiad plentyn unigol ofyn am ryw fath o ymyrraeth gorfforol. Yn benodol, rydym yn cynnwys persbectif y plentyn. Rydym hefyd yn cynnwys rhieni'r plentyn (neu'r rheini â chyfrifoldeb rhiant), staff o'n hysgol/lleoliad sy'n gweithio gyda'r plentyn, ac unrhyw staff cymorth sy'n ymweld (fel Seicolegwyr Addysg, gweithwyr y Tîm Gwella Ymddygiad, Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Gweithwyr Cymdeithasol a cydweithwyr o'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed).

6. PA FATH O YMYRRAETH GORFFOROL Y GELLIR EI DEFNYDDIO?

Dylai unrhyw ddefnydd o ymyrraeth gorfforol gan ein staff fod yn rym rhesymol. Ym mhob achos, dylai'r staff gael eu tywys yn eu dewisiadau gweithredu gan yr egwyddorion yn adran 2 uchod. Ni ddylai staff weithredu mewn ffyrdd y gellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt achosi anaf, er enghraifft trwy:

- ddal plentyn o amgylch y gwddf neu'r coler neu mewn unrhyw ffordd arall a allai gyfyngu ar allu'r plentyn i anadlu
- daro, dyrnu neu gicio plentyn
- droelli neu orfodi aelodau yn erbyn cymal
- faglu plentyn
- ddal plentyn gerfydd y gwallt neu'r glust

Byddai gweithredoedd o'r fath yn cael eu hystyried yn amhriodol. Fodd bynnag, gallwn ddefnyddio tynnu'n ôl neu amser allan. Rydym yn diffinio'r rhain fel a ganlyn:

Mae tynnu'n ôl yn golygu mynd â pherson ifanc, gyda'u cytundeb, i ffwrdd o sefyllfa sydd wedi achosi pryder neu drallod, i le y gellir ei arsylwi'n barhaus a'i gefnogi nes ei fod yn barod i ailafael yn ei weithgareddau arferol.

Amser allan yw pan fydd ymateb i ymddygiad amhriodol person ifanc yn cynnwys cyfnod penodol o amser heb unrhyw atgyfnerthu cadarnhaol fel rhan o gynllun ymyrraeth gyffredinol.

7. COFNODI AC ADRODD

Rydym yn cofnodi unrhyw ddefnydd o ymyrraeth gorfforol. Rydym yn gwneud hyn cyn gynted â phosibl a bob amser o fewn 24 awr i'r digwyddiad. Anfonir copi o'r ffurflen ddigwyddiad at y Gwasanaeth Cynhwysiant cyn pen 24 awr ar ôl y digwyddiad er mwyn caniatáu i'r ALL ddadansoddi'r defnydd o ymyrraeth gorfforol. Yn ôl natur y digwyddiad, efallai y byddwn hefyd yn ei nodi mewn cofnodion eraill. Yn ychwanegol, mae ein corff llywodraethu yn sicrhau bod gweithdrefnau ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau arwyddocaol ac yna yn rhoi gwybod i rieni'r disgybl cyn gynted â phosibl. Ar ôl defnyddio ymyrraeth gorfforol, rydym yn sicrhau bod y Pennaeth/Swyddog Diogelu yn cael gwybod cyn gynted â phosibl. Rydym hefyd yn hysbysu'r rhiant dros y ffôn neu mewn person.

8. CEFNOGI AC ADOLYGU

Rydym yn cydnabod ei bod yn anodd bod yn rhan o ymyrraeth gorfforol, naill ai fel y plentyn sy'n cael ei ddal, yr unigolyn sy'n gwneud y daliad, neu rywun sy'n arsylwi neu'n clywed am yr hyn sydd wedi digwydd. Ar ôl ymyrraeth gorfforol, rydym ni'n rhoi cefnogaeth i'r plentyn fel ei fod/ei bod yn gallu deall pam ei fod yn angenrheidiol. Lle gallwn ni, rydym ni'n cofnodi sut roedd y plentyn yn teimlo am hyn. Lle mae'n briodol, rydym yn cael yr un math o sgysiau â phlant eraill a arsylwodd yr hyn a ddigwyddodd. Ymhob achos, byddwn yn aros nes bydd y plentyn wedi tawelu digon i allu siarad yn gynhyrchiol a dysgu o'r sgwrs hon. Os oes angen, gofynnir i'r plentyn a yw ef neu hi wedi'i anafu fel y gellir rhoi cymorth cyntaf priodol. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i'r plentyn ddweud a oes unrhyw beth amhriodol wedi digwydd mewn cysylltiad â'r digwyddiad.

Rydym hefyd yn cefnogi oedolion a oedd yn cymryd rhan, naill ai'n weithredol neu fel arsyllwyr, trwy roi'r cyfle iddynt drafod yr hyn sydd wedi digwydd gyda'r person mwyaf priodol o'r tîm staff. Nod allweddol ein cefnogaeth ar ôl digwyddiad yw atgyweirio unrhyw straen posibl i'r berthynas rhwng y plentyn a'r bobl a oedd yn rhan o'r ymyrraeth gorfforol.

Ar ôl ymyrraeth gorfforol, rydym yn ystyried a oes angen adolygu'r cynllun ymddygiad unigol fel y gallwn leihau'r risg o fod angen defnyddio ymyrraeth gorfforol eto.

9. MONITRO

Rydym yn monitro'r defnydd o ymyrraeth gorfforol yn ein hysgol/lleoliad. Mae **Rhys Angell Jones a Nia Rowlands** yn gyfrifol am adolygu'r cofnodion bob tymor, ac yn amlach os bydd yr angen yn codi, fel y gellir cymryd camau priodol. Defnyddir y wybodaeth hefyd gan y corff llywodraethu pan adolygir y polisi hwn a pholisïau cysylltiedig.

Mae ein dadansoddiad yn ystyried materion cydraddoldeb fel oedran, rhyw, anabledd, diwylliant a materion crefydd; rydym hefyd yn ystyried materion amddiffyn plant posibl. Rydym yn edrych am unrhyw dueddiadau yn y defnydd cymharol o ymyrraeth gorfforol gyfyngol ar draws gwahanol aelodau staff ac ar draws gwahanol adegau o'r dydd neu leoliadau. Ein nodau yw amddiffyn plant, osgoi gwahaniaethu a datblygu ein gallu i ddiwallu anghenion plant heb ddefnyddio ymyrraeth gorfforol. Rydym yn hysbysu'r dadansoddiad hwn yn ôl i'r corff llywodraethu fel y gellir cymryd camau pellach priodol a'u monitro.

10. PRYDERON A CHWYNION

Mae'r defnydd o ymyrraeth gorfforol yn peri gofid i bawb sy'n gysylltiedig a gall arwain at bryderon, honiadau neu gwynion o ddefnydd amhriodol neu ormodol. Yn benodol, gallai plentyn gwyno am ddefnyddio ymyrraeth gorfforol yn ystod y foment honno ond wrth fyfyrion ymhellach gallai ddeall yn well pam y digwyddodd. Mewn sefyllfaoedd eraill, gallai myfyrion pellach arwain at y plentyn i deimlo'n gryf bod y defnydd o ymyrraeth gorfforol yn amhriodol. Dyma pam rydyn ni'n ofalus i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i adolygu'r digwyddiad ar ôl iddyn nhw dawelu.

Os oes gan blentyn neu riant bryder ynghylch y ffordd y mae ymyrraeth gorfforol wedi cael ei defnyddio, mae gweithdrefn gwynion ein hysgol yn esbonio sut i fynd â'r mater ymhellach a pha mor hir y byddwn yn ei gymryd i ymateb i'r pryderon hyn.

Pan fo honiad o ymosodiad neu ymddygiad ymosodol, rydym yn sicrhau bod y Pennaeth/Swyddog Diogelu yn cael gwybod ar unwaith. Byddem hefyd yn dilyn ein gweithdrefnau amddiffyn plant.

Os yw'r pryder, y gŵyn neu'r honiad yn ymwneud â'r Pennaeth, rydym yn sicrhau bod Cadeirydd y Llywodraethwyr yn cael gwybod. Os nad yw rhieni/gofalwyr yn fodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'r gŵyn, mae ganddynt yr hawl i fynd â'r mater ymhellach fel y nodir yn ein gweithdrefn gwynion. Mae'r canlyniadau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir wrth ddelio â chwynion yn cael eu monitro gan y corff llywodraethu.

ATODIAD 2: GWEITHDREFNAU RHYDDHAU Y CYNRADD

Disgyblion Blwyddyn 6

Bydd hawl gan ddisgyblion blwyddyn 6 i gerdded adref o'r ysgol ar eu pennau eu hunain. Ni fydd hawl gan y disgyblion hyn i gerdded adref gyda'u brodyr a chwiorydd sydd yn iau. Teimlwn fod y disgyblion, erbyn yr amser hyn, wedi magu annibyniaeth ac yn gallu adnabod risgiau. Cyn i'r disgyblion gerdded adref o'r ysgol byddwn wedi dosbarthu llythyr i rieni ac wedi trafod rheolau y broses. Ni fydd un plentyn yn cael cerdded adref o'r ysgol heb fod llythyr caniatâd wedi ei dderbyn gan yr ysgol.

Cyn iddynt gerdded adref o'r ysgol byddwn yn adolygu ac yn pwysleisio'r canlynol gyda'r dysgwyr:

- I ddilyn rheolau diogelwch y ffordd gan gerdded at groesfanau addas lle mae goleuadau yn cynorthwyo.
- Os oes rhaid croesi ffordd lle nad oes goleuadau traffig, byddwn yn annog disgyblion i groesi lle mae modd gweld y traffig yn dod o'r ddau gyfeiriad.
- I fod yn wyladwrus o seiclwyr ar y ffordd.
- I beidio dilyn neu siarad gydag unrhyw ddieithryn ar y ffordd adref.

Os yw disgyblion yn dangos ymddygiad amhriodol neu yn peidio â dilyn y rheolau uchod, yr ysgol fydd yn penderfynu p'un ai yw'r plentyn yn parhau i gerdded adref o'r ysgol.

Casglu disgyblion diwedd y dydd

Rhaid i unrhyw unigolyn sydd yn casglu disgybl sydd yn iau fod yn 16 oed neu'n hŷn. Ni fyddwn yn rhyddhau unrhyw blentyn Cynradd at berson sydd yn iau'r na'r oedran uchod.



SAFEGUARDING POLICY

In all school policies we aim to complete the seven core aims and objectives of the Rights to Action Agenda for the Young People of Wales.

“PUT YOUR HAND IN MINE AND WE WILL GO TO THE MOUNTAIN TOP”

By co-operating and trusting in each other we aim to ensure that each pupil reaches the summit of their ability and talents. We shall do so by offering opportunity, support and guidance within a positive, broadminded, safe and civilized society.

Vision for our pupils

We seek pupils who are fluent in Welsh and English and who are proud of the traditions and inheritance of their locality and their country. We seek balanced and responsible citizens who respect the rights of other individuals and who are comfortable with themselves. They will have a respect for their minds, their souls and their bodies and they will have wide horizons and a curiosity for new information. They will have the necessary skills to take advantage of the challenge of the future work place and society and they will wish to continue to grow and develop as lifelong learners and world citizens.

Guidance Note

Schools and other settings within the Directorate of Learning and Skills must have an effective safeguarding/child protection policy that is:

- in accordance with Local Authority guidance locally agreed interagency procedures
- inclusive of services that extend beyond the school day
- reviewed at least annually
- made available to parents or carers on request
- provided in a format appropriate to the understanding of children, particularly where schools cater for children with additional needs

This model Safeguarding Policy is made available by the Vale of Glamorgan Directorate of Learning and Skills to support the development of safeguarding policies in all areas of the Directorate.

The model policy is based upon the model child protection policy provided in Welsh Government guidance document no: 265/2020 of *Keeping learners safe*.

